OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2450 (Cy. 265)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Ffordd Ymadael Tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 37 (Y Pîl), Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *7 Hydref 2011* |
| *Yn dod i rym* | *17 Hydref 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Drafffordd Llundain - De Cymru (yr M4) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Hydref 2011 a'i enw yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Y Ffordd Ymadael Tua'r Dwyrain wrth Gyffordd 37 (Y Pîl), Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "y darn o'r draffordd" *("the length of the motorway")* yw'r darn cyfan o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain ar Draffordd yr M4 wrth Gyffordd 37 (Y Pîl) ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 17 Hydref